

Crizotinib ar gyfer canser yr ysgyfaint cinas lymffoma anaplastig positif datblygedig lle nad yw'r celloedd yn fach sydd heb ei drin

28 Medi 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir crizotinib (Xalkori) fel triniaeth ar gyfer canser yr ysgyfaint cinas lymffoma anaplastig (ALK) positif datblygedig lle nad yw'r celloedd yn fach lle nad yw'r canser wedi'i drin o'r blaen.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych ganser yr ysgyfaint ALK positif lle nad yw'r celloedd yn fach, a bod eich meddyg yn credu mai crizotinib yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai crizotinib fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis.

Y cyflwr a'r driniaeth

Caiff canser yr ysgyfaint ei grwpio yn ddau brif fath o ganser, gan ddibynnu ar ei ymddangosiad o dan ficrosgop: canser yr ysgyfaint celloedd bach a chanser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach. Gall y celloedd canser gael eu profi i weld a ydynt yn ALK positif, hynny yw, bod mwtadiadau (newidiadau) wedi bod i'r ALK. Mae canser datblygedig yn golygu ei fod wedi lledaenu o'r man lle dechreuodd.

Mae crizotinib yn gweithio drwy rwystro ALK, gan arafu twf y celloedd canser yr ysgyfaint ALK positif.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint](#), 0207 688 5555
- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000
- [Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle](#), 0333 323 7200

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2136-2